



CYNGOR BRO MORGANNWG
Strategaeth Diwylliant a'r
Celfyddydau: Bro Uchelgeisiol â
Diwylliant Byw

2017 - 2022



Cymunedau Cryf â Dyfodol Fwy Disglair

Cynnwys

The Vision	Error! Bookmark not defined.
Introduction	Error! Bookmark not defined.
The Arts in the Vale	Error! Bookmark not defined.
The Arts and the Vale of Glamorgan Council’s Corporate Strategy	Error! Bookmark not defined.
not defined.	
An Inclusive and Safe Vale.....	Error! Bookmark not defined.
An Environmentally Responsible and Prosperous Vale	Error! Bookmark not defined.
defined.	
An Aspirational and Culturally Vibrant Vale	Error! Bookmark not defined.
An Active and Healthy Vale	Error! Bookmark not defined.
Information Links	Error! Bookmark not defined.

Y Weledigaeth

“Nid yr hyn a welwch chi yw Celfyddyd ond yr hyn a berwch i eraill weld”

Degas

Mae'r strategaeth hon yn sefydlu cynllun cyflenwi i gynyddu gweithgarwch celfyddydol ym Mro Morgannwg a datblygu cyfleoedd newydd i greu rhaglen gelfyddydol i'r unfed ganrif ar hugain sy'n atgyfnerthu ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol a pherthyn, ac i sicrhau fod cyfleoedd mynediad ac ymgysylltu diwylliannol a chelfyddydol ar gael i holl drigolion ac ymwelwyr â Bro Morgannwg.

Y weledigaeth yw cynnig celfyddydol sy'n creu llwybr dysgu gydol oes sy'n cysylltu â bywydau dinasyddion yn y Fro ac yn cynnig cyfleoedd newydd ac esblygol ar gyfer mynegiant a gwerthfawrogiad celfyddydol.

Caiff ei wireddu drwy adeiladu ar y partneriaethau presennol a chreu rhai newydd, er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o fuddsoddiad gan Gyngor Bro Morgannwg er mwyn y budd cyhoeddus mwyaf, tra'n sicrhau fod y cynnig yn gynaliadwy i'r dyfodol gan adlewyrchu deilliant llesiant Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer

“Bro Uchelgeisiol â Diwylliant Byw”



Cyngor Bro Morgannwg – Oriol Celf Ganolog – ‘10’ Arddangosfa Agored 2017
Llyfan i dros 90 o artistiaid a 220 o weithiau celf

Cyflwyniad

“Mae'r celfyddydau yn dod â mwynhad ac ysbrydoliaeth i'n bywydau beunyddiol. Mae cymryd rhan yn y celfyddydau boed fel unigolyn neu fel aelod o gymuned yn helpu i'n clymu ynghyd mewn dathliad o'n dynoliaeth gyffredin. Ond gall y celfyddydau hefyd ein helpu i ddeall yr hyn sy'n nodweddiadol ac yn bwysig ei ddiogelu yn y gwahaniaethau sy'n diffinio pob un ohonom. Mae'r celfyddydau yn ein helpu i archwilio a mynegi'r pethau cyffredin rhyngom a'n lle yn y byd.”

Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r ddogfen hon yn gosod cyd-destun a gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau a diwylliant ym Mro Morgannwg hyd 2022. Mae'r Cyngor yn aelod o Clymu Celf, partneriaeth o wasanaethau celfyddydol awdurdodau lleol ar draws rhanbarth De Canolog Cymru.

Mae'r strategaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â Chynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg “Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair”, ac mae wedi ei dylanwadu gan ddeddfwriaeth gyfredol gydag ymchwil, strategaethau a dogfennau wedi eu cynhyrchu gan bartneriaid arwyddocaol megis y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy> ac adroddiad ‘Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru’. Mae'r strategaeth yn adlais o adroddiad diweddar Cyngor Celfyddydau Cymru, ‘Gwneud Cyngor Celfyddydau yn Wytnach – Ffyrdd newydd o weithio’.

Cred Cyngor Bro Morgannwg fod rhan bwysig gan y celfyddydau i'w chwarae yn iechyd, cyfoeth a hapusrwydd trigolion y Fro, ac mae hyn wedi ei gysylltu ag ymrwymiad y Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru.

Gellir ystyried diwylliant a'r celfyddydau gan rai fel rhywbeth moethus, ond mae Bro Morgannwg yn credu'n gryf eu bod yn rhan sylfaenol o fywyd bob dydd, gyda'r gallu i gyfoethogi bywydau ein dinasyddion, hyrwyddo ein diwylliant a hwyluso cymunedau cryf sydd â dyfodol disglair.

Mae rhai o'r buddion yn cynnwys:

- Digwyddiadau yn denu ymgysylltiad yn lleol a rhyngwladol er mwyn dathlu ein arwahanrwydd rhanbarthol
- Y Celfyddydau fel cyfrannwr at brojectau a wreiddiwyd mewn rhaglenni adfywio cymunedau
- Mowldio ein hunaniaeth drwy waith celf cyhoeddus
- Hwyluso gweithdai sy'n meithrin cydlynid cymunedol a chynhwysiant, gan gynnig llwybr at ddysgu gydol oes pellach
- Y celfyddydau a diwylliant gyda phrif ffocws neu ffocws eilaidd ar iechyd a llesiant sy'n greiddiol i fywyd bob dydd y gymuned

Wrth i'r diwydiannau creadigol ddod yn rhan mor hanfodol o economi Cymru, mae'n gynyddol bwysig meithrin y celfyddydau ar bob lefel er mwyn sicrhau fod dinasyddion Bro Morgannwg yn cael budd o'r maes twf hwn.

Cefndir

Mae Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau yn gweithio mewn partneriaeth gydag adrannau eraill ar draws Cyngor Bro Morgannwg, ynghyd a gwirfoddolwyr a phartneriaid eraill, i gynnig gwasanaeth rheng flaen sy'n cynnwys:

- Cefnogi datblygiad a gweithredu gweledigaeth gorfforaethol y cyngor ar ffurf y Cynllun Corfforaethol
- Cynnig cyngor proffesiynol, gwybodaeth ac eiriolaeth parhaus i'r gymuned gelfyddydol ym Mro Morgannwg
- Hwyluso datblygiad gweithgaredd celfyddydol a diwylliannol yn lleol a rhanbarthol.
- Sicrhau fod cyfleoedd celfyddydol a diwylliannol yn hygyrch i bawb drwy farchnata gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol er mwyn sicrhau'r cyfathrebu ehangaf posib ar y cyfleoedd hyn gan gynnwys: arddangosfeydd, perfformiadau theatr, sinema, cerddoriaeth, dawnys, gwyliau cerddorol. Sgyrsiau, gweithdai a dosbarthiadau ayb.
- Cynnig gwasanaeth dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg a chymorth arall yn ôl yr angen yn unol â deddfwriaeth gydraddoldeb
- Ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau
- Lledu mynediad at y celfyddydau drwy gydweithrediadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, partneriaethau lleol, Clymu Celf, Arts Development UK, a chydweithrediadau eraill gyda'r awdurdod lleol
- Gweithio'n agos gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i barhau i gynnig rhaglennu creadigol megis y Cynllun Theatr Noson Allan a'r rhaglenni Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau
 -
 -
 -
 -
 - Datblygu projectau a mentrau gyda llyfrgelloedd, ysgolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau celfyddydol, lleoliadau eraill ac artistiaid unigol a phartneriaid eraill
- Rhannu gwybodaeth mewn amrywiaeth o gyfryngau a meysydd gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol ar gyfer cefnogaeth, rhwydweithio

a marchnata gweithgaredd a chyfleoedd celfyddydol trwy gyfrwng 'Artists Exchange'

- Rheoli datblygiad Celf Gyhoeddus (projectau celf yn y parth cyhoeddus) hyrwyddo creu lle a chydlynid cymunedol ledled y Fro
- Cyfrannu at yr economi leol drwy roi llwyfan i, a chefnogi artistiaid a gwneuthurwyr lleol e.e. yn Celf Ganolog a thrwy gomisiynu celf gyhoeddus a chyfleoedd eraill
- Gweithio gyda'r sector treftadaeth i gefnogi projectau sy'n defnyddio arfer celfyddyd gyfoes ar gyfer dehongli a rhaglenni addysg

Mae'r Cyngor yn aelod o Clymu Celf, cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth. Y cyntaf o'i fath yng Nghymru, mae'r grŵp yma wedi eu rhwymo gan Femorandwm Cydddealltwriaeth (MC), gyda phartneriaeth rhwng Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful, Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont/Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, Cynghorau Caerffili a Chaerdydd. Nod y cydweithredu yw cynyddu'r cyfleoedd i ariannu'r celfyddydau ar gyfer y cymunedau yn yr ardaloedd hyn.



Mae'r fenter hon yn estyn cyrhaeddiad cyfleoedd ar gyfer pobl o bob oed i ymgysylltu â'r celfyddydau a chysylltu'n greadigol ar draws y rhanbarth. Mae aelodau Clymu Celf yn rhannu eu harbenigedd a'u hadnoddau er mwyn gwella ystod ac ansawdd y profiadau celfyddydol sydd ar gael er mwyn sicrhau fod y celfyddydau yng Nghymru yn cyfrannu at:

- Llesiant emosiynol a chorfforol
- Gwella llythrennedd a rhifedd
- Creu cymunedau hyfyw, diogel a chynaliadwy
- Lleihau effaith tlodi a gwella ffyniant yng Nghymru.

Y Celfyddydau yn y Fro

Mae'r celfyddydau gweledol a pherfformio wedi eu cynrychioli'n dda ledled Bro Morgannwg ar ffurf ymarferwyr creadigol unigol, lleoliadau celfyddydol, sefydliadau celfyddydol, grwpiau gwirfoddol, annibynnol ac amatur a phartneriaethau project a chydweithrediadau (Atodiad 2).

Mae ffurfiau celfyddyd yn cynnwys: Celf gain, celf/crefft ymarferol, ffotograffiaeth, ysgrifennu creadigol, drama a theatr, dawns, cerddoriaeth, sinema a pheth celfyddydau digidol.

Ceir nifer o sefydliadau celfyddydol a grwpiau sy'n weithgar iawn yn y Fro, ond hefyd ceir sefydliadau cenedlaethol ac ar lefel y DU a sefydliadau nad sy'n ymwneud â'r celfyddydau sy'n cefnogi projectau celf yn yr ardal yn ogystal.

Nododd ymgynghoriad diweddar â lleoliadau dros Fro Morgannwg yn 2016 fod tua hanner miliwn o ymweliadau â lleoliadau celfyddydol ar draws y sir. 128,000 yw'r boblogaeth (cyfrifiad 2011), felly mae hyn gyfystyr bron â phedwar ymweliad ar gyfer pob un o drigolion y Fro. Mae'r lleoliadau wedi eu cynnwys yn Atodiad 3.

Mae Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau (GDC) yn cynnal [Cyfnewidfa Artistiaid](#), sef cyfeiriadur o artistiaid ym Mro Morgannwg, sy'n weithredol annog hyrwyddo a chefnogi ac ymgysylltu ag artistiaid o bob maes. Caiff y gwasanaeth ei gynnis drwy wefan y Cyngor.

Mae'r GDC hefyd yn cefnogi: artistiaid drwy gyfrwng rhaglen ddysgu greadigol Cyngor Celfyddydau Cymru mewn ysgolion; Clymu Celf a'r partneriaethau A2 Clymu; rhaglen Gerdd Forte; menter It's My Shout, sy'n arbenigo ar a datblygu talent newydd ar gyfer y diwydiant ffilm; Cyfeillion Oriel Celf Ganolog; y celfyddydau; lleoliadau diwylliannol ac ystod eang o grwpiau a sefydliadau.

Yn achos celf yn y parth cyhoeddus, Bro Morgannwg yw un o'r awdurdodau lleol mwyaf gweithgar yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae gofyn i bob datblygiad newydd osod o'r neilltu o leiaf un y cant o gyfanswm y gyllideb er mwyn comisiynu artistiaid i gyfrannu at elfen parth cyhoeddus y project. Mae'r elfen hon wedi ei chynnwys yn y canllaw cynllunio arbennig, o dan gytundeb Adran 106, ac mae cynigion gwaith celf yn destun cymeradwyaeth gan Gyngor Bro Morgannwg.

Y Celfyddydau a Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Bro Morgannwg

Bro Gynhwysol a Diogel

“Mae ansawdd bywyd da gan ddinasyddion Bro Morgannwg ac maent yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol”

Mae'r celfyddydau yn eu hanfod yn gynhwysol. Mae pob artist yn dymuno cael y gynulleidfa fwyaf posib ar gyfer eu gwaith, ac i fod â'r gallu i ddwyn pobl ynghyd i rannu profiadau, un ai fel cynulleidfaoedd neu gyfranogwyr gweithredol.

Mae Bro Morgannwg yn ycnig ystod amrywiol o weithgareddau a digwyddiadau celfyddydol. Mae llawer o'r hyn sydd ar gael un ai am ddim neu am gost cymharol isel. Mae hyn yn ffactor pwysig ar gyfer y rheiny sydd yn gorfod teithio i leoliad neu weithgaredd penodol mewn ardal sydd yn ei hanfod yn wledig.

Tra bod y Cyngor yn cydnabod gwerth y celfyddydau er eu mwyn eu hunain, fel modd o fynegiant creadigol, gyda'r gallu i drawsnewid bywydau, mae'n deg dweud y gall y celfyddydau hefyd gynnig cerbyd creadigol ar gyfer ymgysylltu pobl ag agendâu eraill a'u cyflawni. Mae enghreifftiau yn cynnwys: celfyddydau ar gyfer iechyd, y celfyddydau ym maes addysg a dysgu gydol oes; y celfyddydau ac adfywio; y celfyddydau er mwyn cynhwysiant cymdeithasol; celfyddydau ar gyfer

pobl hŷn; celfyddydau a'r amgylchedd; celfyddydau ac anabledd; celfyddydau a busnes; celfyddydau a'r diwydiannau creadigol; celfyddydau a gwyddoniaeth; celfyddydau a thechnoleg a thwristiaeth ddiwylliannol.

Gwelwyd cynnydd calonogol mewn gweithgaredd celfyddydol ar gyfer cynulleidfaoedd a chyfranogwyr ag anableddau, salwch neu namau mewn blynyddoedd diweddar. O ddangosiadau sinema arbennig i bobl â Dementia, i arddangosfeydd yn cynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl, i gefnogi artist anabl i ddangos ei waith mewn oriel broffesiynol (Tu Fewn - Ffotogallery yn Nhŷ Turner), i sefydlu fforwm y celfyddydau a diwylliant i rai dros 50 oed yn y Fro, i brojectau yn cynnwys y gymuned Roma, mae'r Fro wedi gweld gwaith diddorol ac ysbrydoledig, a ddyluniwyd er mwyn sicrhau fod pob grŵp a gallu yn cael eu cynnwys. Maer arddangosfa Diwrnod Cofio'r Holocost blynyddol yn Celf Ganolog yn ymgysylltu ag ysgolion ac yn gwahodd nifer fawr o'r cyhoedd i ymgysylltu â thema o wahaniaeth ac amrywiaeth mewn modd cadarnhaol. Mae project cerdd Clymu Celf Forte yn cynnig Dosbarth meistri dan arweiniad proffesiynol a chyfleoedd datblygu sgiliau a gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth heddiw.

Camau Gweithredu - Bro Gynhwysol a Diogel

1. Adfywio cynllun marchnata Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad uchaf ar gyfer cyfleoedd a digwyddiadau, gan gynnwys diweddarau y polisi cyfryngau cymdeithasol yn unol â chanllawiau corfforaethol.
2. Adeiladu ar y rhwydwaith gyda lleoliadau i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli celfyddydol a gwella cyfleon cyflogadwyedd, datblygu sgiliau a hyfforddiant, a chyfleon rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu.
3. Cryfhau cysylltiadau gydag ysgolion ac archwilio cyfleoedd celfyddydol yn ystod ac wedi oriau craidd yr ysgol.
4. Parhau i weithio gydag A2Clymu er mwyn sicrhau fod pob ysgol yn ardal y Fro yn ymwybodol o a c yn gallu cyrchu cyfleoedd sy'n codi o raglen Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau, y Criw Celf a rhaglen Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru.
5. Creu strategaethau newydd ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc yn y Fro er mwyn sicrhau cyrhaeddiad effeithiol i gyfleoedd celfyddydol.
6. Parhau i weithio gyda Clymu Celf i nodi a sicrhau cyllid partneriaeth i gynnig projectau celf o ansawdd uchel i'r cymunedau yn y Fro a'r rhanbarth De Canolog.

Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac sy'n Ffynnu

Mae gan Fro Morgannwg economi cryf a chynaliadwy ac mae'r amgylchedd lleol yn cael ei diogelu i genedlaethau heddiw a'r dyfodol

Cydnabyddir mai'r diwydiannau creadigol yw'r sector twf economaidd mwyaf yn y DU ac yn gyfrannwr cynyddol bwysig i'r economi Gymreig, ynghyd â thwristiaeth, y mae twristiaeth ddiwylliannol yn isadran bwysig ohono.

Adroddodd yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fod y diwydiannau creadigol bellach werth £84.1biliwn y flwyddyn i economi'r DU, ar ôl tyfu 8.9%

Yn ogystal â chynnig cymorth a chyngor datblygu gyrfa i weithwyr celfyddydol proffesiynol yn y Fro, mae Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau yn cefnogi artistiaid a chrefftwyr lleol trwy gyfrwng arddangosfeydd a'r potensial i werthu eu gwaith yn yr oriel Celf Ganolog yn y Barri, a thrwy ddigwyddiadau megis Gŵyl y Crefftwyr yn Southerndown. Mae cyfleoedd comisiynu sylweddol, yn sgil y strategaeth gelf gyhoeddus, ynghyd â ffioedd ar gyfer gweithdai, perfformiadau, darlleniadau, addysg oedolion, projectau artistiaid preswyl, arddangosiadau, sgysiau a digwyddiadau eraill, hefyd yn cyfrannu at ddichonadwyedd ariannol gweithwyr celfyddydol proffesiynol yn y Fro. Yn eu tro mae'r busnesau bach neu ficro yma yn cefnogi busnesau atodol sy'n cynnig, er enghraifft, offer, deunyddiau, argraffu, yswiriant, cyfrifyddiaeth a gwasanaethau eraill, gan ailgylchu arian cyhoeddus yn ôl drwy'r economi leol.

Mae gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau yn ymdrechu i weithredu arfer gorau wrth ymwneud a gweithwyr celfyddydol proffesiynol. Gellir diffinio'r rhain fel a ganlyn:

- Prosesau dewis tryloyw ac adborth adeiladol
- Graddfeydd ffioedd priodol a thâl i safonau cenedlaethol
- Gweithio gyda gweithwyr celfyddydol proffesiynol i gyflenwi comisiynau celf cyhoeddus, gweithdai creadigol, hyfforddiant a rhannu sgiliau a dylunio
- Clod eglur a chyson ar ddefnyddio delweddau a phriodoli hawlfraint
- Ymrwymiad parhaus i ddatblygiad proffesiynol a chyfleoedd hyfforddi

Mae Gwasanaeth datblygu'r Celfyddydau wedi dechrau nifer o brojectau i godi ymwybyddiaeth am ailgylchu a'r amgylchedd. Cafodd comisiwn mawr diweddar ar gyfer Ynys y Barri – Wal Tramwy Gordon Young, ei wneud o blastig wedi ei ailgylchu.

Cama - Bro Lewyrchus a Chyfrifol o ran yr Amgylchedd

1. Archwilio anghenion hyfforddi gweithwyr celfyddydol proffesiynol yn y Fro a nodi cyfleoedd gyda gwasanaeth Addysg Oedolion y Fro.
2. Nodi partneriaid masnachol i ddatblygu sgiliau proffesiynol a busnes ymarferwyr creadigol yn y Fro i'w gwneud nhw'n fwy cynaliadwy yn economaidd fel busnesau bach.
3. Creu grŵp rhwydweithio i ddylunwyr-gwneuthurwyr/crefftwyr ledled y Fro, mewn partneriaeth â Cymunedau Gwledig Creadigol
4. Nodi artistiaid sydd yn gweithio gyda thechnoleg ddigidol yn y Fro a sefydlu gweithdai newydd yn seiliedig ar sgiliau
5. Nodi cyfleoedd i sefydlu stiwdios fforddiadwy a gweithdai i artistiaid yn y Fro
6. Mapio lleoliadau celfyddydol yn y Fro ar gyfer marchnata'r celfyddydau ac i ddibenion twristiaeth ddiwylliannol
7. Hyrwyddo benthyciadau offer sinema
8. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Gŵyl Ffilm newydd ar gyfer y Fro

Bro Uchelgeisiol sy'n Fywiog yn Ddiwylliannol

Mae cyfleoedd gan holl ddinasyddion Bro Morgannwg i gyflawni eu potensial llawn

Gall gwaith celf cyhoeddus helpu i greu hunaniaeth leol benodol, gwella'r amgylchedd a chreu ymdeimlad o le.



Mae'r pwyslais ar ddylunio da, ymagwedd gydweithredol, greadigol, datrys problemau ac arloesi ac, oherwydd hynny, mae gweithiau celf cyhoeddus yn benodol i safle, unigryw ac nid ydynt ar unrhyw gyfrif yn wrthrychau a fasgynhyrchwyd, neu a atgynhyrchwyd.

Mae adrannau'r cyngor yn gweithio'n agos â'i gilydd i nodi cyfleoedd i gyflenwi projectau celf cyhoeddus, fel rheol wedi eu comisiynu gan, neu drwy gydweithio â, datblygwyr, penseiri, dylunwyr tirlun a rhanddeiliaid eraill. Mae Strategaeth Celf Gyhoeddus Bro Morgannwg yn gofyn i'r Cyngor sicrhau o leiaf 1% o gostau datblygu project ar gyfer comisiynu celf gyhoeddus.

Er mwyn sicrhau fod cyfleoedd i gyfranogi'n gymunedol yn greiddiol i'r project, caiff gweithwyr celfyddydol proffesiynol sydd â'r wybodaeth briodol eu cyflogi i reoli comisiynau celf gyhoeddus.

Amcanion allweddol y cyngor wrth ddatblygu celf gyhoeddus yw:

- Sicrhau safonau dylunio uchel
- Parchu hynodrwydd lleol
- Gwella amrywiaeth
- Cynnwys pobl leol i annog gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Hyrwyddo ymdeimlad o falchder c **Arddangosfa Goffa'r Holocaust - Ascension - Artist Nicola Tucker a Thîm Datblygu'r Celfyddydau**

Mae rhai canlyniadau buddiol o'r broses gomisiynu celf gyhoeddus yn cynnwys:

- Annog ymateb a deialog cymunedol
- Dathlu cymuned, hanes lleol, treftadaeth ddiwylliannol a thraddodiadau
- Cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol
- Mynd i'r afael a materion diogelwch cyhoeddus (e.e. trwy oleuo integredig neu elfennau rheoli traffig)
- Cryfhau dysgu gydol oes trwy weithdai cysylltiedig
- Cynnig cyfleoedd cyflogaeth, caffael sgiliau neu brofiad gwaith i artistiaid lleol a'r gymuned ehangach.
- Cyfrannu at iechyd a llesiant e.e. mewn amgylchedd ysbyty neu ofal.
- Denu busnesau/ mewnfuddsoddiad trwy wella'r amgylchedd.

Artistiaid proffesiynol a/neu wneuthurwyr dylunwyr sy'n arwain y gweithdau dylunio creadigol ar gyfer datblygu gwaith celf cyhoeddus, sy'n cynnig ymgysylltiad ac

ymgyngori â'r gymuned. Yn elfen allweddol i ddatblygu gweithiau celf mewn mannau cyhoeddus, mae'r cysylltiad a'r rhyngweithiad hwn yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth, cydnabyddiaeth a pherthyn, can roi hirhoedledd i'r project y tu hwnt i'r broses gomisiynu.

Fel enghraifft, mae arddangosfa flynyddol Diwrnod Cofio'r Holocaust yn Celf Ganolog wedi bod yn arf bwerus i drafod gwahaniaeth ac amrywiaeth, dadleoli ac adrodd hanesyddol. Bob blwyddyn mae artistiaid yn creu ymatebion ar thema DCH ac fe geir gweithdai i ysgolion a'r cyhoedd. Mae'r arddangosfa yn cyfrannu at dwristiaeth ddiwylliannol drwy gynnig rhaglen o arddangosfeydd cymunedol a phroffesiynol o ansawdd uchel, sgysiau a gweithdai gan alluogi'r gymuned leol a honno sy'n ymweld i ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Gall y celfyddydau, fel y tystiodd Adroddiad *Dyfodol Disglair* Donaldson (2014), fod yn allweddol wrth fynd i'r afael â pherfformiad gwael o ran llythrennedd, rhifedd a defnydd ar dechnoleg ddigidol. Tra bod gan y Fro nifer o ysgolion sydd eisoes yn ymwneud â phroject Ysgolion Creadigol Arweiniol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, gellid ehangu'r gwaith hwn a'i barhau trwy raglen atodol gan Wasanaeth Datblygu 'r Celfyddydau, mewn partneriaeth â chyfarwyddiaeth dysgu a Sgiliau'r Fro. Mae Swyddog Datblygu Celfyddydau'r Fro eisoes yn aelod o A2 Clymu, y rhwydwaith addysg a'r celfyddydau yn Ne Cymru Ganolog, sy'n rhedeg rhaglen o brojectau atodol a hyfforddiant law yn llaw â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan alluogi mwy o athrawon i ymestyn eu sgiliau creadigol yn yr ystafell ddosbarth.

Hyd yma mae'r partneriaethau hyn wedi eu datblygu ar sail fesul project, ond mae'r strategaeth yma'n cynnig ffordd fwy clyfar o ddefnyddio'r celfyddydau i wneud i'r cyllid cyhoeddus fynd ymhellach ac i flaenoriaethau'r Cyngor gael eu cyflawni mewn ffyrdd sydd yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy e.e. gellir archwilio cyfleoedd i gael adran 106 (cyfraniadau ariannol) gyda datblygwyr. Maent ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer hwyluso projectau celf cyhoeddus, mae posibilrwydd y gallai'r arian yma gyfrannu at brojectau eraill megis nawdd arddangosfeydd ar gyfer y celfyddydau.

Mae Bro Morgannwg ar hyn o bryd yn elwa ar oriel gelf bwrrpasol, sef oriel Celf Ganolog. Defnyddir yr oriel ar hyn o bryd i gynnal nifer o ddigwyddiadau'n gysylltiedig â'r celfyddydau perfformio, yn ogystal â sgysiau, seminarau, darlenniadau, datganiadau, ayb gan ddenu ymwelwyr i weld arddangosfeydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol mewn amryw o gyfryngau.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau sydd yn cefnogi recriwtio gwirfoddolwyr ac mae ganddo garfan o unigolion ymrwymedig sy'n derbyn hyfforddiant i oruchwylio a chynorthwyo gyda chefnogi'r rhaglen arddangosfeydd. Mae datblygiad gwirfoddolwyr eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion, y gymuned gelfyddydol a busnesau diwylliannol yn yr ardal.

Mae'r oriel hefyd yn gweithio'n agos gyda Chyfeillion Oriol Celf Ganolog, grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr sy'n helpu i gynnal oriel gelf y Cyngor. Eu prif nod yw cynorthwyo drwy hyrwyddo ac annog diddordeb yn Celf Ganolog a'r digwyddiadau maent yn eu cynnal. Mae'r cyfeillion yn cynnal nifer o ddigwyddiadau gydol y flwyddyn gan gynnwys sgysiau artistiaid; cefnogi dangosiadau preifat; trefnu gwibdeithiau dydd; lansio llyfrau a gweithgareddau eraill.

Ym mis Ebrill 2017, cynhaliwyd arolwg strategaeth gelfyddydol (Gweler Atodiad 1). Yn gyffredinol, mae'n dangos er bod cryn barch i ddiwyddiadau a gafodd eu cynnal gan y Fro, ac eithrio'r celfyddydau perfformio, daeth y mwyafrif o ymwelwyr yno i ddiwyddiadau, lai na 5 gwaith y flwyddyn.

Tanlinellodd yr arolwg allan o boblogaeth o 128,000, dim ond 127 a gyfranogodd yn yr arolwg celfyddydol (0.01% o'r boblogaeth). Yn amlwg, mae angen gwneud mwy i ymgysylltu mwy o'r gymuned ag artistiaid lleol a digwyddiadau diwylliannol, ac i leihau cyfraddau gadael cyn gorffen ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.

Mae cynnig celfyddydol Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig amrywiaeth o lwybrau i ddysgu a sgiliau, gan gynnwys gwirfoddoli a hyfforddiant i wella cyfleoedd gyrfa. I'r perwyl hwnnw, mae nifer o ganlyniadau penodol wedi eu cysylltu'n uniongyrchol gydag ail lansio Celf Ganolog, sydd â'r nod o sefydlu darpariaeth ar gyfer mynegiant artistig yn yr G21 gydag amrywiaeth o gyfryngau digidol a thechnoleg newydd, newid ffocws Celf Ganolog yn ofod datblygu creadigol. Mae'r ethos hon yn creu cyfleoedd newydd i ymgysylltu drwy gyfrwng cyrsiau Dysgu Oedolion a Chymunedol wedi eu hanelu at gelfyddydau'r G21, lledu'r llwyfan, yr apêl a'r gynulleidfa ar gyfer y celfyddydau yn y Fro.

I'r perwyl hwnnw, mae sefydlu caffi cymunedol canolog newydd o fewn Celf Ganolog yn flaenoriaeth allweddol, gan ledu mynediad at weithiau artistig lleol tra'n cynnig amgylchedd ymlaciol i fynychwyr allu ymgysylltu â'r hyn sydd o'u cwmpas. Dyma gyfle cyffrous i'r gymuned a bydd yn creu cyfleoedd newydd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r celfyddydau, diwylliant, y gymuned, a'r hyn sydd yn cael ei gynnig.

Camau Gweithredu - Bro Uchelgeisiol â Diwylliant Byw

1. Diweddarau Strategaeth Celf Gyhoeddus Bro Morgannwg. *(Ceir strategaeth celf gyhoeddus ar wahân sy'n mynd i'r afael â'r protocol cyfreithiol a chaffael ar gyfer datblygu celf gyhoeddus)*
2. Mapio llwybr celf cyhoeddus ar gyfer y Fro, gan gynnwys gweithiau celf hanesyddol a chyfredol er budd y cyhoedd a dibenion twristiaeth ddiwylliannol
3. Mireinio trefniadau gweithio rhyngadrannol ar gyfer projectau celf gyhoeddus i sicrhau'r effeithiolrwydd a'r budd cymunedol mwyaf - (Datblygu bwrdd celfyddydol traws gyngor)
4. Archwilio cyfleoedd masnachol trwy'r oriel Celf Ganolog a'r Hyb.
5. Sefydlu caffi newydd o fewn Celf Ganolog
6. Creu a chynnal cyrsiau a gweithdai newydd sydd â ffocws digidol yn Celf Ganolog trwy'r gwasanaeth Dysgu Oedolion a Chymunedol
7. Hyrwyddo dirprwyo celfyddyd trwy nifer o leoliadau sy'n bod eisoes yn y Fro (e.e. Llyfrgelloedd) er mwyn bod mwy yn gweld ac ennyn mwy o ddiddordeb
8. Ymchwilio i well integreiddio rhwng Hyb y Celfyddydau a Llyfrgell y Barri

Bro Actif ac Iach

Mae preswylwyr Bro Morgannwg yn byw bywydau iachus a chaiff pobl sy'n agored i niwed eu hamddiffyn a'u cefnogi

“...mae creu a phrofi celf yn codi ein hwyliau ac yn ein cadw’n gall. Mae celf fel gwyddoniaeth a chrefydd yn ein helpu i greu ystyr o’n bywydau, ac mae creu ystyr yn gwella ein hysbryd”.


Grayson Perry - Artist

Mae hanes hir a pharchus o waith arloesol ym maes y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru. Er mai Oriol yr Aelwyd yn Ysbyty Llandochoau yw'r project celfyddyd ac iechyd mwyaf amlwg yn y Fro, gwelwyd creu sawl project i hyrwyddo iechyd a llesiant gan gynnwys:

- Cerdd Byw Nawr (pobl hŷn â demensia)
- Wal Dramwyo Gordon Young, ar Ynys y Barri, (er mwyn annog pobl o bob oed i fod yn gorfforol actif)
- Gŵyl y Gwanwyn (gŵyl gelf i bobl hŷn)
- Dangosiadau sinema sy'n dda i ddementia yn y Memo, sydd hefyd yn aelod o gynllun theatr hygyrch Hynt.
- Rhaglen celf gyhoeddus Cymuned Ddysgu Penarth, a oedd yn cynnwys gweithdai gwaith gwydr maw dan arweiniad artist i bob disgybl, cyfres o gomisiynau celf gyhoeddus a phreswylad chwe mis i bobl hŷn er mwyn archwilio 'Atgofion' yn Golau Caredig yn y Barri.

Tra bod dosbarthiadau drama, dawns a symud yn hyrwyddo patrwm byw mwy actif, mae sawl math o weithgaredd celfyddydol arall wedi profi'n fuddiol o ran problemau iechyd meddwl ac i'r rheiny sy'n teimlo'n unig ac ynysig.

Nododd arolwg llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 'Amser Siarad' (2016) nifer o gyfleoedd celfyddydol a diwylliannol yn y Fro.



'Wal Dramwyo Ynys y Barri' gan Gordon Young – wedi ei wneud o blastig a ailgylchwyd a chymhorthion dringo sy'n adlewyrchu'r hanes a chydweddu â'r amgylchedd o'i gwmpas. Mae'r gwaith celf cyhoeddus hwn yn arddangos wal ryngweithiol sy'n cyfrannu at iechyd corfforol a llesiant pawb.

Camau Gweithredu - Bro Iach ac Actif

1. Datblygu strategaeth gelfyddydau ac iechyd gan ddilyn menter celfyddydau ac iechyd Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sydd dan ymgynghoriad ar hyn o bryd.
2. Parhau i weithio gyda Clymu Celf i gynnig projectau celf ac iechyd o ansawdd uchel i'r cymunedau yn y Fro a'r rhanbarth.
3. Hyrwyddo arfer hygyrchedd da yn lleoliadau'r Fro.
4. Gweithio gyda phartneriaid yn benodol i gynnig rhaglenni celfyddydau diwylliannol creadigol gan dargedu materion iechyd penodol.

Dolenni Gwybodaeth

Adroddiad yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar y Diwydiannau Creadigol

<https://www.gov.uk/government/news/creative-industries-worth-almost-10-million-an-hour-to-economy>

Adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*

<https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf>

Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru

<https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/arts/a-vision-for-culture-in-wales/?lang=cy>

Culture and Poverty – A report by Baroness Kay Andrews

[Diwylliant a Thlodi](#)